

Y Gymraeg a Pharôl

Taflen Wybodaeth i Garcharorion

Er mai dim ond yn Llundain y mae gennym ni swyddfa, mae'r Bwrdd Parôl yn gweithredu ar draws Cymru a Lloegr. Nid oes rhaid i ni gynnal ein busnes yn Gymraeg, ond rydyn ni'n gwneud ymdrech fwriadol i geisio cynnal peth o'n busnes yn Gymraeg, os bydd o gymorth i garcharor.

Os byddwch chi'n ysgrifennu atom ni yn Gymraeg fe fyddwn ni'n ymateb yn Gymraeg.

Os byddwch chi'n ein ffonio, yn anffodus fyddwn ni ddim yn gallu siarad â chi'n Gymraeg a bydd yn rhaid i chi ddefnyddio Saesneg. Os ydy hyn yn mynd i fod yn anodd i chi fe allwn ni gyfathrebu â chi yn Gymraeg drwy lythyr, felly efallai y byddai'n well gennych chi ysgrifennu atom ni.

Pan fyddwn ni'n cynnal adolygiad parôl o garcharor sydd â'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu ddewis iaith, fe fyddwn ni'n gwneud beth a allwn ni i'ch cefnogi chi o ran y Gymraeg.

Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, lle mae'n nodi'r egwyddorion a'r ymrwymiad i'r Gymraeg wrth gynnal busnes a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru cyn belled â'i fod yn briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Gohebiaeth Barôl

Mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i ni am eich dewisiadau o ran cael gohebiaeth a chyfathrebiadau yn eich dewis iaith. Fe ddylech chi ofyn i'ch Rheolwr Troseddwy/Goruchwyliwr Troseddwy yn y Carchar neu rywun yn yr Uned Rheoli Troseddwy i nodi hyn yn eich ffeil. Dylai eich Rheolwr Troseddwy /Goruchwyliwr Troseddwy yn y Carchar nodi eich dewis wrth iddyn nhw ysgrifennu eu hadroddiad parôl.

Gallwch chi ofyn bod penderfyniadau a gohebiaeth parôl gan y Bwrdd Parôl yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg. Mae gennym ni ddyletswydd i ddarparu fersiwn Gymraeg os gofynnoch chi am un – **mae gennych chi'r hawl.**

Bydd angen i chi siarad â'r Uned Rheoli Troseddwy os ydych chi eisiau i'ch ffeil parôl fod yn Gymraeg, gan fod hyn y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Parôl.

Gwrandawiadau Parôl Llafar

Mae gwrandawiadau llafar yn cael eu cynnal yn Saesneg oni ofynnir yn wahanol. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn eich adolygiad parôl mae nifer o opsiynau y gellir eu hystyried:

Gwrandawriad llawn yn Gymraeg – lle bydd pawb yn siarad Cymraeg drwy gydol eich gwrandawriad parôl.

Cyfieithiad llawn – lle bydd pawb yn siarad Saesneg drwy gydol eich gwrandawriad parôl, ond bydd cyfieithydd ar y pryd yn yr ystafell i gyfieithu popeth sy'n cael ei ddweud yn Saesneg i Gymraeg a phopeth sy'n cael ei ddweud yn Gymraeg i Saesneg.

Cymorth proffesiynol – lle bydd pawb yn siarad Saesneg drwy gydol eich gwrandawriad parôl, ond bydd cyfieithydd ar y pryd yn yr ystafell i gyfieithu i'r Gymraeg o bryd i'w gilydd os na fyddwch chi'n deall rhywbeth a ddwedwyd yn Saesneg, neu, gyfieithu i Saesneg i'r panel rywbeth rydych chi'n ei ddweud yn Gymraeg.

Cymorth anffurfiol – lle bydd pawb yn siarad Saesneg drwy gydol eich gwrandawriad parôl, ond fe allech chi ofyn i rywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw ddod gyda chi i'ch helpu os cewch chi drafferthion yn defnyddio'r Saesneg. Ni fyddan nhw'n gallu siarad ar eich rhan ond fe fyddan nhw'n gallu eich helpu o ran sut i ddweud rhywbeth.

Os hoffech chi i'r Bwrdd Parôl ystyried un o'r opsiynau hyn, dylech chi roi gwybod i'ch Rheolwr Troseddwyd/Goruchwyliwr Troseddwyd yn Y Carchar neu eich cynrychiolydd cyfreithiol cyn gynted â phosib. Byddan nhw'n cysylltu â'r Bwrdd Parôl i roi gwybod iddyn nhw am eich cais ac i weld a oes modd ei drefnu, Y mwyaf o rybudd y bydd gan bawb yr hawsaf y bydd pethau i'w trefnu. **Dylid gwneud unrhyw gais i'r Bwrdd Parôl o leiaf 12 wythnos cyn gwrandawriad llafar.**

Bydd y Bwrdd Parôl yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddiwallu eich anghenion o ran y Gymraeg ond efallai na fydd yn wastad yn bosib darparu rhai o'r uchod. Byddwch chi'n cael eglurhad os nad oes modd gwneud rhywbeth, a bydd dewis arall yn cael ei gynnig.

Dylech chi hefyd siarad â'ch cynrychiolydd cyfreithiol a gofyn eu bod nhw'n darparu cyfreithiwr cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg, bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi ddeall yr adolygiad parôl.

Bydd carchardai yng Nghymru wedi enwebu swyddog arweiniol y Cymraeg felly gofynnwch i gael siarad â nhw os oes angen rhagor o gyngor neu gymorth arnoch chi ynglŷn â derbyn gwybodaeth am eich adolygiad parôl yn Gymraeg.

Os ydych chi mewn carchar yn Lloegr gofynnwch i'ch Rheolwr Troseddwyd/Goruchwyliwr Troseddwyd yn y Carchar i weld pa gymorth y gellir ei gynnig.

Welsh Language and Parole

Information Sheet for Prison Residents

The Parole Board covers both England and Wales, but we only have an office in London. Although this means that we are not required to conduct our business in Welsh, we will aim to conduct some of our business in Welsh, where it will support a prisoner.

If you write to us in Welsh then we will respond in Welsh.

If you telephone, us we are sorry but unfortunately we will not be able to speak to you in Welsh and you will need to use English. If this is going to be difficult for you we can correspond with you in Welsh via a letter, so you may prefer to write to us instead.

When we carry out a parole review of a prisoner whose first or preferred language is Welsh, we will do what we can to support you in relation to the Welsh language.

The Board has a published Welsh Language Scheme approved by the Welsh Language Commissioner, where it sets out the principles and commitment to the Welsh language when conducting business and in the administration of justice in Wales so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable.

What does this mean for you?

Parole Correspondence

It is important to let us know about your preference to have correspondence and communications to you in your preferred language. You should ask your Prison Offender Manager/Offender Supervisor or someone in the OMU to make a note of this on your file. Your Community Offender Manager/Offender Manager should also record your preference when they write their parole report.

You can ask for parole correspondence and decisions from the Parole Board to be provided in Welsh and English. We have a duty to provide you with a Welsh version if you have asked for one – **it is your right.**

You will need to talk to the OMU if you require your parole dossier to be provided in Welsh, as this is out of the Parole Board's control.

Parole Oral Hearings

Oral hearings are convened in English unless otherwise requested. If you wish to speak Welsh during your parole review there are a number of options that can be considered:

Full hearing in Welsh – this is where everyone will speak Welsh throughout your parole hearing.

Full translation – this is where everyone will speak English throughout your parole hearing, but there will be an interpreter in the room to translate everything that is said in English into Welsh and everything that is said in Welsh into English.

Professional assistance - this is where everyone will speak English throughout your parole hearing, but there will be an interpreter in the room to translate now and again into Welsh if you do not understand something said in English, or, translate into English for the panel where you say something in Welsh.

Informal support - this is where everyone will speak English throughout your parole hearing, but you could ask for someone you trust to come along and support you if you get into difficulty using the English language. They will not be able to speak on your behalf but can give you help on how to say something.

If you wish the Parole Board to consider one of these options, you should let your Prison Offender Manager/Offender Supervisor or your legal representative know as soon as possible. They will contact the Parole Board to let them know your request and see if it can be arranged. The more notice everyone has of your wishes the easier it will be to arrange. **Any request should be made to the Parole Board at least 12 weeks before an oral hearing.**

The Parole Board will do everything it can to meet your Welsh language needs but may not always be able to provide some of the above. You will be given an explanation if something cannot be done, and an alternative option offered.

You should also talk to your legal representative and ask that they provide a qualified lawyer who can speak Welsh, if this will make it easier for you to understand your parole review.

Prisons based in Wales will have a nominated lead for the Welsh language so ask to speak to them if you need more advice or support with receiving information about your parole review in Welsh.

If you are located in a prison in England then ask your Community Offender Manager/Offender Manager to see what support can be offered.